# Diweddariad canol-blwyddyn cofrestr DU y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

**1 Ebrill – 30 Medi 2024**

Nursing & Midwifery Council



## Croeso i’n hadroddiad canol blwyddyn ar y gofrestr CNB a’r hyn y mae’n amlygu am y gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth yn y Deyrnas Gyfunol.

## Cyd-destun

Mae’r gofrestr wedi bod yn tyfu’n gyson ers 2017, ac mae’r duedd honno wedi parhau yn ystod y chwe mis diwethaf. Ar 30 Medi, roedd **841,367** o weithwyr proffesiynol ar y gofrestr. Mae hynny **14,949** (**1.8%**) **yn fwy** na chwe mis yn ôl, a **151,629** (**22%**) **yn fwy** nag ym mis Mawrth 2017, pan ddechreuodd y twf cyson.

Mae dau gonglfaen wedi cynnal y twf yn ystod y saith mlynedd diwethaf. Mae un yn batrwm cyson o recriwtio domestig, sydd ar y cyfan wedi parhau, er ar gyflymder ychydig yn is. Ymunodd **14,780** o weithwyr proffesiynol a addysgwyd yn y Deyrnas Gyfunol â’r gofrestr rhwng Ebrill a Medi, sydd **1.8% yn llai** nag yn yr un cyfnod y llynedd (15,050). Yn y cyfamser roedd **11,569** o ymadawyr a addysgwyd yn y DG, sy’n **gynnydd o 1.7%** (6 mis hyd at fis Medi 2023 = 11,371).

Y conglfaen arall yw’r cynnydd sylweddol mewn recriwtio rhyngwladol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, yn ôl ein data diweddaraf, gall bod hyn yn dechrau arafu.

I ymhelaethu, ymunodd **12,534** o weithwyr proffesiynol a addysgwyd tramor â’r gofrestr yn y chwe mis hyd at fis Medi, ond mae hynny **16.6%** (**2,501**) **yn llai** nag yn yr un cyfnod y llynedd (15,035 yn y chwe mis hyd at fis Medi 2023). Yn ogystal, gadawodd **2,573** o weithwyr proffesiynol rhyngwladol y gofrestr - **cynnydd o 33%** o 639 (1,934 yn y chwe mis hyd at fis Medi 2023).

Y nifer uchaf erioed
**841,367**
o weithwyr ar y gofrestr

**Yn ystod y chwe mis diwethaf**

Cynnydd o
**14,949** +1.8%

+1.7% **Nyrsys**
778,340

+2.4% **Bydwragedd**
45,198

-1.3% **Cofrestryddion deuol**
6,278

+6.2% **Cymdeithion Nyrsio**[1]
11,551

1 Cyflwynwyd y rôl cynorthwyydd nyrsio yn 2019. Dim ond yn Lloegr y gall cymdeithion nyrsio ymarfer.

Mae'r cynnydd mewn ymadawyr rhyngwladol yn ymddangos yn arbennig o arwyddocaol. Fodd bynnag, mae'n werth ystyried data ymadawyr yng nghyd-destun cofrestr sy'n tyfu. Os edrychwn ar y 2,573 o ymadawyr rhyngwladol fel cyfran o'r garfan gynyddol o'r holl weithwyr proffesiynol rhyngwladol ar y gofrestr, yna gwelwn fod 1.4% wedi gadael rhwng Ebrill a Medi, o'i gymharu â 1.2% yn yr un cyfnod y llynedd.

## Golwg fanylach ar y cyd-destun rhyngwladol diweddaraf

Am y tro cyntaf, mae mwy na 200,000 o weithwyr proffesiynol rhyngwladol ar y gofrestr (**200,362**). Mae hyn **10,145** (**5.3%**) **yn fwy** nag oedd ym mis Mawrth.

Y garfan ryngwladol fwyaf ar y gofrestr yw'r rhai a addysgwyd yn India: **67,576**. Mae hynny'n golygu bod gweithwyr proffesiynol o India bellach yn cyfrif am 8% o'r gweithlu nyrsio a bydwreigiaeth sydd ar gael yn y Deyrnas Gyfunol. Erbyn hyn mae mwy na 50,000 o bobl ar ein cofrestr cafodd eu haddysgu yn Ynysoedd y Philipinau (**50,180**).

Rydym yn parhau i weld pobl yn ymuno â'r gofrestr o wledydd 'rhestr goch'[2]. Fodd bynnag, mae ein data'n dangos gostyngiad yn y nifer a addysgwyd yn y gwledydd rhestr goch Nigeria (-16.1%) a Ghana (-3.5%) o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Ar yr un pryd, mae recriwtio gweithwyr proffesiynol sy'n derbyn addysg yn Nepal wedi mwy na dyblu yn ystod y chwe mis diwethaf o'i gymharu â'r un cyfnod ym mis Medi 2023.



2 Mae'r codau ymarfer perthnasol ar gyfer recriwtio rhyngwladol personél iechyd a gofal cymdeithasol yn gwahardd recriwtio gweithredol o wledydd 'rhestr goch' a ddynodwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd. Nid yw'r codau yn atal gweithwyr iechyd unigol o wledydd 'rhestr goch' sy'n ceisio cyflogaeth ar ben eu hunain, ond ni ddylai cyflogwyr fod wrthi'n recriwtio o'r gwledydd hynny yn rhagweithiol.

**Yn ystod y chwe mis diwethaf, o'i gymharu â mis Ebrill - Medi 2023**

-9.2% **27,313** wedi ymuno â'r gofrestr

+6.3% **14,142** wedi gadael y gofrestr

**Medi 2024:**

76.2% addysgwyd yn y DU

23.8% addysgwyd dramor

**Yn ystod y chwe mis diwethaf**

Addysgwyd **45.9%** o newydd-ddyfodiaid y tu allan i'r DU

**Mis Medi 2024: ble darparwyd addysg tramor i'r nifer fwyaf, o'i gymharu â'r llynedd**

1. **India** 67,576 ↑ +21.9%
2. **Y Philipinas** 50,180 ↑ +5.5%
3. **Nigeria** 14,815 ↑ +22.5%
4. **Rwmania** 7,357 ↑ +0.1%
5. **Ghana** 6,362 ↑ +35.1%

## Cofrestr fwy aml-ethnig

Mae cyfran yr holl weithwyr proffesiynol cofrestredig o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig[3] wedi parhau i godi. Erbyn hyn mae'r gweithwyr proffesiynol hyn yn cyfrif am **bron i draean** (**31.7%**) o'r bobl ar y gofrestr – cynnydd o **fwy na phwynt canran** mewn chwe mis.

Mae dau brif reswm dros gynnydd amrywiaeth ethnig y gofrestr. Un yw bod graddedigion nyrsio a bydwreigiaeth addysgedig yn y Deyrnas Gyfunol yn fwy aml-ethnig nac yn y gorffennol. Y llall yw'r cynnydd mawr mewn gweithwyr proffesiynol sy'n ymuno â'n cofrestr o wledydd Asiaidd ac Affrica.



**31.7%** o'r gofrestr yng Nghymru o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig. Yn 2019, roedd **20.1%** o'r gofrestr yng Nghymru o gefndiroedd Du a lleiafrifoedd ethnig.

In the last six months, compared to the same period last year


**+3.7%**

**18.2%** of people leaving the register were internationally educated

Medi 2024

**44 blwyddyn, 1 mis** oedd oedran cyfartalog y gweithwyr ar y gofrestr

Rhaniad rhywedd y gofrestr[4]




3 Mae'r CNB yn cydnabod bod iaith y sector yn newid yn gyson a bod y bobl sydd wedi'u cynnwys o fewn termau eang yn cwmpasu grwpiau ethnig amrywiol. Adolygwn y iaith a ddefnyddiwn yn rheolaidd.

4 Ni fydd y canrannau hyn yn creu cyfanswm o 100% yn union gan nad oedd pawb wedi nodi eu rhywedd.

## Mwy o ymadawyr sydd â phum mlynedd neu lai ar y gofrestr

Rhwng Ebrill a Medi, fe adawodd mwy o weithwyr proffesiynol y gofrestr nag yn yr un cyfnod y llynedd – 14,142 i gymharu ag 13,305, sy'n **gynnydd o 6.3%** am y cyfnod. Fel uchod, mae'n bwysig ystyried pobl sy'n gadael fel cyfran o'r gofrestr, a thrwy'r lens hon gwelwn fod cyfran yr holl weithwyr proffesiynol a adawodd yn y chwe mis hyd at fis Medi yr un fath ag yr oedd y llynedd: **1.7%**.

Wrth wyntyllu'n fanylach, gwelwn gynnydd yn nifer y bobl sy'n gadael gyda chyfanswm cronnol o bum mlynedd neu lai ar y gofrestr ers ymuno gyntaf: 1,799 yn y chwe mis hyd at fis Medi, o'i gymharu â 1,211 yn yr un cyfnod y llynedd. Mae hynny'n gynnydd amlwg o **48.6%** ar gyfer y cyfnod ond unwaith eto, gadewch i ni ystyried y ddau ffigur hynny fel cyfrannau o'r gofrestr lle'r oedd y ddau yn **0.2%**, yr un.

Pan fydd rhywun yn gadael y gofrestr, rydym yn gwybod nad yw hynny o reidrwydd am byth; mae miloedd o 'ddychwelwyr' bob blwyddyn, ond byddwn yn monitro i weld a yw hyn yn ddechrau tuedd raddol tuag at lai o amser ar y gofrestr ar gyfartaledd.



5 Mae'r data hyd amser yn gronnol ers cofrestru cychwynnol, ac nid ydynt o reidrwydd yn golygu cofrestru di-dor neu barhaus. Mae nifer o gofrestreion yn gadael y gofrestr am amryw o resymau, am un neu fwy o gyfnodau yn ystod eu gyrfaoedd.

**Yr amser ers cofrestru cychwynnol, a'r newid yn hynny yn ystod y chwe mis diwethaf**[5]

- +3.8% **5 mlynedd neu lai** 237,439
- +7.3% **Rhwng 5 a 10 mlynedd** 132,277
- -0.4% **10 i 30 mlynedd** 335,392
- -1.02% **30 mlynedd neu fwy** 136,259

**Ymadawyr yn ôl faint o amser ers cofrestru cychwynnol, o'i gymharu â mis Medi y llynedd**

- +48.5% **5 mlynedd neu lai** 1,799
- -12.4% **Rhwng 5 a 10 mlynedd** 1,240
- -1.5% **10 i 30 mlynedd** 271,380
- +1.4% **30 mlynedd neu fwy** 7,247

## Dros 45,000 o fydwragedd wedi cofrestru

Yn unol â'r duedd ehangach, mae cyfanswm y bydwragedd ar y gofrestr wedi bod yn cynyddu'n raddol, ac erbyn hyn mae **45,198**. Mae hynny **1,073 yn fwy** nag ym mis Mawrth – sef **cynnydd o 2.4%**. Fodd bynnag, yn yr un cyfnod y llynedd, cynyddodd nifer y bydwragedd 3.0%, felly mae cyflymder y twf wedi arafu y tro hwn.

Yn sail i hyn, mae nifer y bydwragedd a addysgir yn y Deyrnas Gyfunol sy'n ymuno â'r gofrestr am y tro cyntaf wedi gostwng. Rhwng Ebrill a Medi eleni, ymunodd **1,231** o fydwragedd, sy'n **ostyngiad o 12.5%** o'i gymharu â'r 1,406 a ymunodd yn y chwe mis hyd at fis Medi 2023.

Yn gwrthbwyso hyn yn rhannol, ymunodd **384** o fydwragedd a addysgwyd dramor â'r gofrestr, **cynnydd o 11%** o'i gymharu â'r un cyfnod y flwyddyn flaenorol pan ymunodd 345. Mae hyn yn cyferbynnu â'r darlun rhyngwladol llawn a nodir uchod, sy'n cynnwys nyrsys (mae 88.9% o'r holl ymunwyr rhyngwladol yn nyrsys).

## Rhannu mewnwelediadau i gefnogi'r sector

Gobeithiwn y bydd y trosolwg hwn, ochr yn ochr â'n tablau data cynhwysfawr, yn cefnogi cynllunio'r gweithlu ac ymchwil yn y Deyrnas Gyfunol, gan sicrhau'r ddarpariaeth fwyaf effeithiol o wasanaethau y mae pobl a chymunedau ledled y wlad yn dibynnu arnynt am eu hiechyd a'u lles.

Os oes gennych gwestiynau am ein data neu syniadau ar sut y gallem wella defnyddioldeb yr adroddiad hwn, cysylltwch â ni.



**Kuljit Dhillon**
Cyfarwyddwr dros dro
Strategaeth a Mewnwelediad



**O fis Medi 2024, newid yn ystod y chwe mis diwethaf**

+2.2% **Nyrsys oedolion** 623,224

+2.4% **Nyrsys plant** 60,445

+2.6% **Nyrsys iechyd meddwl** 101,626

+0.9% **Nyrsys anableddau dysgu** 16,837

-0.3% **Nyrsys iechyd y cyhoedd cymunedol arbenigol** 29,377

**Crefyddau fwyaf cyffredin, newid mewn chwe mis**

+1.1% **Cristnogaeth** 472,961

+2.3% **Dim crefydd** 267,779

+7.0% **Mwslimaidd** 21,842

**Cyfeiriadedd rhywiol, newid yn ystod y chwe mis diwethaf**

+9.3% **34,602** Lesbiaidd, hoyw, deurywiol neu arall

+1.4% **753,246** Heterorywiol

**Ni ddylem anghofio bod yna weithwyr proffesiynol ymroddedig y tu ôl i'n data; sy'n darparu gofal diogel, effeithiol a charedig i bobl bob dydd. Rydym yn ddiolchgar am bopeth maen nhw'n ei wneud ar gyfer y bobl a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.**



# Yr hyn rydym yn ei wneud

## Ein gweledigaeth yw ymarfer nyrsio a bydwreigiaeth ddiogel, effeithiol a charedig sy'n gwella iechyd a lles pawb. Fel rheoleiddiwr annibynnol 841,000 o nyrsys a bydwragedd yn y DU a chymdeithion nyrsio yn Lloegr, mae gennym rôl bwysig wrth wireddu'r weledigaeth hon.

Rydym yma i ddiogelu'r cyhoedd drwy gynnal safonau nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol uchel, y mae gan y cyhoedd hawl i'w disgwyl. Dyna pam rydym yn gwella'r ffordd rydym yn rheoleiddio, gan wella ein cefnogaeth i gydweithwyr, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, a gweithio gyda'n partneriaid i ddylanwadu ar ddyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

Ein rôl graidd yw **rheoleiddio**. Rydym yn gosod ac yn hyrwyddo safonau addysg uchel a phroffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd ledled y Deyrnas Gyfunol a chymdeithion nyrsio Lloegr, ac yn sicrhau ansawdd eu haddysg. Rydym yn cadw uniondeb y gofrestr o'r rheiny sy'n gymwys i ymarfer. Yn ogystal, ymchwiliwn i bryderon am weithwyr proffesiynol - rhywbeth sy'n effeithio ar nifer fechan o bobl ar ein cofrestr bob blwyddyn.

I reoleiddio'n dda, rydym yn **cefnogi** gweithwyr nyrsio a bydwreigiaeth proffesiynol a chyhoeddus. Rydym yn creu canllawiau ac adnoddau sy'n ddefnyddiol drwy gydol gyrfaoedd gweithwyr proffesiynol, gan eu helpu i gyflawni ein safonau yn ymarferol a mynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu. Rydym yn gweithio ar y cyd fel bod pawb yn teimlo eu bod yn ymgysylltu ac yn cael eu grymuso i lunio ein gwaith.

Rydym yn gweithio gyda'n partneriaid i fynd i'r afael â phryderon cyffredin, rhannu ein data, ein mewnwelediad a'n gwybodaeth er mwyn **dylanwadu** ar y broses o wneud penderfyniadau a helpu i ysgogi gwelliant mewn iechyd a gofal cymdeithasol i bobl a chymunedau.

23 Portland Place, London W1B 1PZ
+44 20 7637 7181 www.nmc.org.uk
@nmcnews @nmcuk @nmcnews

Nursing & Midwifery Council

Rheoleiddiwr nyrsio a bydwreigiaeth ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1091434) ac yn yr Alban (SC038362).